# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-12-06(p.6)

### Dyddiad: 21 Medi 2006
### Amser: 9.30 - 12.30
### Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Teitl: Adolygu Polisi: Digartrefedd ymhlith Pobl Ifanc

#### Diben y Papur

Derbyn papur cwmpasu ar gyfer rhoi ystyriaeth i'r adolygiad o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc.

#### Crynodeb/Argymhelliad

Mae'r Pwyllgor yn cael ei wahodd i ystyried yr adroddiad yn Atodiad 1 sy'n ymwneud ?hyd-destun digartrefedd ymhlith pobl ifanc, ynghyd ? modd y gallai'r adolygiad gael ei yrru yn ei flaen.

#### Cefndir

Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2006, gofynnodd y Pwyllgor am bapur cwmpasu ar gyfer cynorthwyo'r broses o ystyried sut y gallai adolygiad y Pwyllgor o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc gael ei yrru yn ei flaen. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer yr adolygiad hwn, ac mae'n cynnwys cyngor ynghylch y materion i'w hystyried a sut y gallai'r broses ymgynghori gael ei rhoi ar waith.

#### Ystyriaeth

Bydd yr adolygiad o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc yn cynorthwyo'r broses o ddatblygu rhannau perthnasol o'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd.

#### Goblygiadau Ariannol

4. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r papur hwn.

#### Them?Trawsbynciol

Mae mynd i'r afael ?igartrefedd yn agenda drawsbynciol sy'n cysylltu'n agos ? amcanion ehangach sy'n ymwneud ?hyfiawnder cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd, ynghyd ? ymrwymiadau ar gyfer mynd i'r afael ?igartrefedd ymhlith

pobl ifanc. Mae ganddo oblygiadau amlwg o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella cyfleoedd addysgol, diogelu pobl a allai fod yn agored i niwed a chynorthwyo pobl ddigartref i ddod o hyd i gartrefi a chymunedau cynaliadwy. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i waith y Pwyllgor yn y maes hwn wrth adolygu'r Strategaeth, ynghyd ? angen am ragor o gamau.

## Camau ar gyfer y Pwyllgor

6. Mae'r Pwyllgor yn cael ei wahodd i ystyried cyngor y papur hwn.

**Edwina Hart AC MBE**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**